# Ardaloedd Infertebratau Pwysig yn y broses gynllunio






Chwith: Gwarchodfa Natur Genedlaethol Gregynog yn AIP Sir Drefaldwyn © John Trefonen. De: Scolt Head yn AIP Arfordir Norfolk © John Fielding Aerial Image

**Mae Ardaloedd Infertebratau Pwysig (AIP) yn fannau o bwys cenedlaethol neu ryngwladol ar gyfer infertebratau a'u cynefinoedd. Maent yn ddull hanfodol er mwyn helpu i warchod ein rhywogaethau a'n casgliadau o infertebratau sydd dan fwyaf o fygythiad, wedi'u mapio gan ddefnyddio data gan gofnodwyr cenedlaethol a lleol ac wedi'u datblygu mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr lleol. Er nad ydynt yn ddynodiad safle cyfreithiol, gallant helpu i sicrhau bod safleoedd allweddol ar gyfer infertebratau'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau cynllunio a rheoli tir yn lleol ac yn genedlaethol, er mwyn helpu i adfer poblogaethau cynaliadwy o infertebratau. Gall hyn gynnwys hysbysu penderfyniadau cynllunio safle penodol, ond hefyd benderfyniadau strategol am flaenoriaethau cadwraeth ar raddfa tirwedd.**

## Sut all AIP helpu infertebratau yn y broses gynllunio?

Gyda miloedd o rywogaethau a gwahanol ofynion ecolegol ac ardaloedd crwydro, mae ystyried infertebratau'n fater cymhleth. Mae AIP yn cymryd gwybodaeth dechnegol ac yn ei drosi'n fformat hygyrch a defnyddiol er mwyn sicrhau bod ecolegwyr, cynllunwyr, awdurdodau lleol, cyrff statudol, sefydliadau cadwraeth, rheolwyr tir a llunwyr penderfyniadau eraill yn gallu deall yn well bwysigrwydd y tirwedd ar gyfer infertebratau a gwneud penderfyniadau doethach er mwyn cefnogi adferiad natur. Bydd mapiau a phroffiliau AIP cyflawn yn galluogi:

- I safleoedd bywyd gwyllt pwysig gael eu clustnodi ar y cyfle cynharaf yn ystod prosesau cynllunio, yn cynnwys



Map o'r hectadau AIP cenedlaethol (10km x 10km sgwâr)

mewn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol;

- Canlyniadau cynllunio gwell ar gyfer infertebratau, trwy ddynodi pryd y mae angen arolygon infertebratau i asesu effeithiau ac i hysbysu penderfyniadau cynllunio'n gywir;
- Awdurdodau Lleol i adnabod yn well safleoedd a chynefinoedd sy'n bwysig ar gyfer infertebratau prin ac sydd dan fygythiad yn genedlaethol. Mae hyn yn berthnasol iawn ar gyfer Awdurdodau Lleol sydd heb fynediad i arbenigedd ecolegol i gefnogi eu timau cynllunio;
- Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol i rannu cyfres genedlaethol wedi'i blaenoriaethu o fapiau sy'n dangos y diddordeb infertebratau allweddol, proffiliau'n llawn gwybodaeth ac adnoddau atodol i gefnogi eu canlyniadau chwilio am ddata;
- Clustnodi gwell o safleoedd pwysig ar gyfer infertebratau, all ddynodi bylchau yn y rhwydwaith ardaloedd gwarchodedig cenedlaethol a chyfrannu at gyfres Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol (neu gynllun cyfatebol) pob sir;
- Y safleoedd gorau posibl ar gyfer infertebratau i gael eu heithrio o Gynlluniau Datblygu Lleol, gan sicrhau nad ydynt yn cael eu peryglu gan ddatblygiadau neu newidiadau defnydd tir amhriodol. Bydd hyn yn helpu Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd bioamrywiaeth;
- Cynlluniau Seilwaith Gwyrdd a Glas i ystyried yn iawn sut y gallent gefnogi poblogaethau infertebratau trwy warchod, adfer neu gysylltu cynefinoedd gyda chreu wedi'i dargedu;
- Ymgynghorwyr ecolegol a gweithwyr proffesiynol i adnabod yn haws safleoedd, cynefinoedd a nodweddion infertebratau allweddol, gan ganiatáu cynnal asesiadau effaith gwell.

Gall AIP helpu i amlygu ble mae angen arbenigedd infertebratau ychwanegol, ond ni allant gymryd lle arolygon ac asesiadau arbenigol. Cynhyrchir rhwydwaith cyflawn o fapiau ar raddfa fân, dogfennau a phroffiliau atodol er mwyn helpu'r defnydd o AIP i hysbysu llunio penderfyniadau, a'u cyhoeddi ar wefan Buglife. Am fwy o wybodaeth a diweddariadau ewch i: https://www.buglife.org.uk/our-work/ardaloedd-infertebratau-pwysig/

## Sut gafodd yr AIP eu dynodi a'u mapio?

Dynodwyd y rhwydwaith AIP gan ddefnyddio cyfoeth o ddata – dros 45 miliwn o gofnodion gan 80 o gynlluniau cofnodi arbenigol cenedlaethol. Defnyddiwyd adolygiadau statws cyfoes o fygythiad i neu brinder infertebratau, ynghyd â barn arbenigol, i ddynodi cyfres o rywogaethau cymwys AIP. Yn genedlaethol, mae hectad (neu sgwâr 10km x 10km) yn cymhwyso fel rhan o AIP os yw un ai:


- Yn cynnal rhywogaeth sydd Mewn Perygl Difrifol yn genedlaethol, Mewn Perygl ar lefel Ewropeaidd neu fyd-eang, neu rywogaeth endemig sydd ddim yn eang ei gwasgariad. Y rhain yw ein rhywogaethau prinnaf neu sydd dan fwyaf o fygythiad, sy'n golygu bod cyfrifoldeb penodol arnom i weithredu a'u gwarchod

**neu**

- Yn cynnal casgliad o bwys cenedlaethol o rywogaethau prin neu sydd dan fygythiad.


Yna cafodd yr hectadau hyn eu grwpio'n ardaloedd AIP gydag enw cyfarwydd, fel y New Forest, Cymoedd De Cymru, neu Strathspey. Wedyn, mapiwyd pob ardal AIP enwebedig ar raddfa fân, er mwyn dynodi'r rhwydweithiau o gynefinoedd a safleoedd sy'n cefnogi eu diddordeb allweddol o ran infertebratau. Ar gyfer AIP mawr a chymhleth, defnyddiodd hyn ddata Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol wedi'i gyfuno â'r data cenedlaethol i greu mapiau o gofnodion rhywogaethau cymwys a archwiliwyd gan entomolegwyr a naturiaethwyr lleol.

Chwith: Rhan o rwydwaith AIP graddfa fân Canolbarth Cernyw, i'r gogledd o'r Afon Fowey.  De: Y chwilen ddaear (*Carabus intricatus*) sy'n Brin yn Genedlaethol – rhywogaeth gymhwysol sydd i'w chael yng nghoetiroedd Dyffryn Fowey









Chwith: Misglen Berlog yr Afon (*Margaritifera margaritifera*) sydd Mewn Perygl Difrifol © Sue Scott / Naturescot. De: AIP De Esk, cartref i boblogaeth bwysig o Fisglod Perlog yr Afon.

## Beth mae'r mapiau a'r proffiliau AIP yn eu dangos?

Mae'r mapiau AIP yn dangos y rhwydwaith o safleoedd sy'n cefnogi ei rywogaethau cymwys. Mae'r rhwydwaith hwn wedi ei fapio'n seiliedig ar bresenoldeb cofnodion gwiriedig ar ôl 1990 o rywogaethau cymwys AIP a barn arbenigwyr lleol i ganfod yr ardaloedd o gynefin sy'n eu cefnogi.

Nid yw'r mapiau AIP yn dangos cofnodion rhywogaethau unigol gan fod y data yn dod o ffynonellau niferus ac yn cynnwys derbyn gwahanol ganiatâd. Er mwyn eu dehongli orau, dylid eu hastudio ochr yn ochr â'r proffiliau AIP perthnasol, y gellir eu lawrlwytho o dudalen we AIP. Mae'r proffiliau hyn yn disgrifio'r cynefinoedd a'r nodweddion pwysig sy'n cynnal infertebratau ym mhob AIP. Maent hefyd yn dynodi rhai rhywogaethau allweddol i'w hystyried a chasgliadau o infertebratau yn yr ardal honno sy'n gysylltiedig â nodweddion cynefin penodol. Gellir defnyddio'r wybodaeth ar fygythiadau a chyfleoedd o fewn y proffil i hysbysu penderfyniadau rheoli ar gyfer cynefinoedd o fewn yr ardal AIP sydd wedi'i mapio.

Mae'r rhaglen AIP yn uchelgeisiol ac yn cymryd amser, sy'n golygu bod rhai AIP yn dal i'w mapio ar raddfa fân, tra bo eraill wedi'u mapio ar raddfa fân ond sydd heb broffil ategol ar hyn o bryd. Os byddech cystal â bod yn amyneddgar tra ein bod yn cwblhau'r dasg sylweddol hon a daliwch i ymweld â gwefap AIP am ddiweddariadau i'r rhwydwaith o fapiau graddfa fân a'r proffiliau ategol.

## Ystyriaethau infertebratau pellach

- Gall ardaloedd y tu allan i'r rhwydwaith mapiau AIP graddfa fân ddal fod yn werthfawr i infertebratau. Dylai cynefinoedd a ddynodwyd mewn arfarniadau ecolegol fel bod â'r potensial i gynnal poblogaethau infertebratau pwysig wastad fod yn destun arolygon ac asesiadau infertebratau priodol.
- Dylai pob cais cynllunio gynnal y chwiliadau data priodol gyda Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol. Gall proffiliau AIP helpu i ddynodi mathau o gynefinoedd pwysig, ond mae'n hanfodol, ble fo angen, bod arolygon ac asesiadau infertebratau priodol wastad yn cael eu cynnal. Dylai'r rhain gael eu cynnal gan arbenigwr cymwys, gan ddefnyddio technegau cynnal arolygon priodol a bydd rhaid iddynt gwmpasu'r ffenestr arolwg perthnasol.
- Mae proffiliau AIP yn dynodi'r cynefinoedd pwysig all hysbysu cynlluniau creu, rheoli neu adfer cynefinoedd perthnasol yn lleol fel eu bod yn targedu'r casgliadau o infertebratau o ddiddordeb yn gywir. Gall targedu gwella neu greu cynefinoedd o fewn neu'n gyfagos i ardaloedd AIP graddfa fân wella cysylltedd ar draws y dirwedd, gan ganiatáu i boblogaethau infertebratau ehangu a chreu poblogaethau cydnerth.

**Awdur:** Jamie Robins

**Dyddiad:** Mawrth 2024
**Fersiwn rhif:** 1

Corryn Neidio'r Hesg (*Attulus caricis*) sy'n Brin yn Genedlaethol © Mark Gurney (CC BY-NC-SA 2.0)

